

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2014

Amser y cyfarfod:

13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda

(230)v3

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3 Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 (15 munud)

NDM5620 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2014.

Dogfennau Ategol

[Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2012 \(Diwygio\) 2014](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) *(Saesneg yn unig)*

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#) – *dim pwyntiau adrodd*

4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth – darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth allforio (15 munud) NDM5617 Edwina Hart (Gŵyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â chymorth allforio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Cewch gopi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

[http://services.parliament.uk/bills/2014-](http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html)

[15/smallbusinessenterpriseandemployment.html](http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html) *(Saesneg yn unig)*

Dogfennau Ategol

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes](#)

5 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2015–16 (120 munud) NDM5619 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–2016 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 30 Medi 2014.

Mae Cynigion Cyllideb Ddrafft 2015–16 ar gael ar y linc a ganlen :

<http://wales.gov.uk/funding/budget/draft-budget-2015-16/?lang=cy>

Dogfennau Ategol

[Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–2016](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod:

a) y Gyllideb Ddrafft yn methu ag ymgymryd â dull gweithredu Cymru gyfan mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf at y dyfodol;

b) y symiau a fuddsoddir mewn mesurau integreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu torri, ac y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau ariannol ar y GIG yn y dyfodol;

c) dull gweithredu annoeth mewn perthynas â buddsoddi mewn sgiliau wedi arwain at ostyngiad yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael, a gallai hyn arwain at ddirywiad pellach mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc.

6 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013–14 (60 munud)

NDM5618 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013–14.

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2013–14 drwy ddilyn y linc a ganlyn: <http://www.complantcymru.org.uk/cy/adroddiad-blynyddol-2014/>

7 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2014

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 18 Tachwedd 2014

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

- 1. Gwyn Price (Islwyn):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch caniatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio mewn refferendwm ar bwerau i amrywio trethi yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)1966(FM)
- 2. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y niferoedd sydd wedi cael brechiadau MMR yng Nghymru? OAQ(4)1957(FM)
- 3. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru? OAQ(4)1958(FM)W
- 4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyfodol brechwast ysgol am ddim? OAQ(4)1965(FM)W
- 5. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chynlluniau i yswirio tai sydd o dan fygythiad gan lifogydd? OAQ(4)1960(FM)W
- 6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru? OAQ(4)1955(FM)
- 7. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar safonau mewn cartrefi gofal yng Nghymru? OAQ(4)1969(FM)
- 8. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwysigrwydd yr UE i economi Cymru? OAQ(4)1959(FM)

9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru?
OAQ(4)1954(FM)

10. Jeff Cuthbert (Caerffili): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y manteision i Gymru o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd?
OAQ(4)1964(FM)

11. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu cyflogaeth yn ne Cymru? OAQ(4)1967(FM)

12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1968(FM)

13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa gyfarfodydd y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol presennol Cymru ers ei benodiad? OAQ(4)1961(FM)W

14. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y trafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Grid Cenedlaethol ynghylch Prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru? OAQ(4)1956(FM)

15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu'r economi yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)1970(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn](#)

Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2014 a dydd Mercher 26 Tachwedd 2014

Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2014 a dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014

Dydd Mawrth 9 Rhagfyr 2014 a dydd Mercher 10 Rhagfyr 2014

Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i Sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad (5 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Imiwneiddio – cynnydd a brechiadau (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Rhaglen Twf Swyddi Cymru yn y Dyfodol (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Defnyddwyr: Gwelliannau mewn perthynas â Ffioedd Asiantaethau Gosod (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth – darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant (15 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam–drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam–drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru (60 munud)

Dydd Mercher 26 Tachwedd 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)
- Dadl Fer – Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud) – *gohiriwyd o ddydd Mercher 19 Tachwedd*

Dydd Mawrth 2 Rhagfyr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno'r Bil Cymwysterau (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Gwyddoniaeth yng Nghymru – Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf (30 munud)
- Dadl: Effaith y Polisi Caffael yng Nghymru (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2014 ar y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau (60 munud)

Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Datganiad gan Kirsty Williams: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ddulliau Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – William Graham (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 9 Rhagfyr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 (30 munud)
- Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caethwasiaeth Fodern – darpariaethau sy'n ymwneud ag eiriolwyr masnachu plant, canllawiau ar adnabod a chefnogi dioddefwyr a rhagdybio oedran (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Troseddau Difrifol (15 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2015–16 (60 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ei ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Dadl Fer – William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)